**Taflen Wybodaeth i Rieni Plant sy’n cael eu Henwaedu**

**Uned yr Enfys (Plant a Phobl Ifanc)**

---

Mae eich mab wedi cael llawdriniaeth o’r enw enwaediad. Mae hyn yn cynnwys cael gwared ar y blaengroen o amgylch blaen y pidyn oherwydd tyndra, a allai fod wedi achosi heintiau.

Bydd pwythi o amgylch yr ardal lle mae’r darn hwn o groen wedi’i dynnu. Nid oes angen i’r pwythi hyn gael eu tynnu; dylent fynd ohonynt eu hunain dros y 2-3 wythnos nesaf. Gallai edrych yn flêr i ddechrau ond bydd yn gwella wrth i’r clwyf wella dros y deg diwrnod cyntaf. Cofiwch y gall edrych yn waeth cyn iddo wella.

Dylid cadw’r pidyn yn sych yn ystod y cyfnod gwella. Peidiwch â rhoi unrhyw eli arno.

Yn ystod y cyfnod gwella fe sylwch y bydd y pidyn yn edrych yn chwyddedig â chleisiog, mae hyn yn hollol normal. Dylech gysylltu â’r ysbyty am gyngor os bydd eich mab yn gwaedu lle cafodd y llawdriniaeth, os bydd yn cael trafferth mynd i’r tŷ bach neu os bydd ganddo redlif drewllyd yn dod o’r pidyn. Mae’n normal cael rhywfaint o anghysur, a gellir ei liniaru gyda phoenladdwr fel Paracetamol.

Os ydych yn ansicr ynghylch y dos a pha mor aml i’w roi, gweler y cyfarwyddiadau ar y botel. Os ydych dal yn ansicr cysylltwch â’r ward neu’ch meddyg teulu am gyngor.

**Cofiwch: - Gall gormod o Paracetamol fod yn beryglus.**
Pan fo’n bosibl dylid dinoethi’r ardal. Gallai rhai bechgyn deimlo'n swil yn hyn o beth ac weithiau bydd rhieni’n gwneud ‘bocsys’ amddiffynnol i’w rhoi yn y trôns.

Gall y plentyn ail-ddechrau chwarae yn ôl yr arfer pan fo'n teimlo ei fod yn gallu. Ond sicrhewch nad yw’n anafu ei hun hyd nes bod y clwyf wedi gwella’n gyfan gwbl. Efallai bydd angen iddo gymryd pythefnos neu ragor i ffwrdd o’r ysgol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ymholiadau neu bryderon am lawdriniaeth eich mab, mae croeso i chi gysylltu â'r staff nyrsio ar:- 01633 234014.

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English.”**